# y dinesydd

Mawrth 2003 | PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH | Rhif 279

# MAE FFIGURAU'R CYFRIFIAD YN DDIDDOROL IAWN

Mae'r nifer o bobl yng Nghaerdydd sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg bron â dyblu - dyna neges ffigurau Cyfrifiad 2001 a gyhoeddwyd yn ddiweddar . Mae'r ganran o bobl â 'pheth gwybodaeth o'r Gymraeg' wedi codi'n sylweddol hefyd, gyda chynnydd o 10.6 y cant yn 1991 hyd at 16.3 y cant yn 2001. Mae hyn oll yn wir ar adeg pan fo'r nifer o Gymry Cymraeg yng Nghaerdydd yn disgyn rhyw 4.2 y cant.

Gallwch ddarganfod rhagor o wybodaeth am ffigurau'r Cyfrifiad ar wefan y Cyngor (www.cardiff.gov.uk/censusdata), ac mewn taflen maint poced a gynhyrchwyd gan Ganolfan Ymchwil Caerdydd (029 2087 3204). Bydd rhagor o erthyglau am y Cyfrifiad yn ymddangos mewn rhifynnau Y Dinesydd yn y dyfodol.

# EISTEDDFOD 2008

Bydd Eisteddfod Genedlaethol 2008 yn cael ei chynnal ar feysydd Pontcanna. Ar ôl trafodaethau hefo trefnwyr yr Eisteddfod, cadarnhaodd Cyngor Caerdydd bod £350,000 wedi ei neilltuo tuag at gost yr Wyl yn ogystal â £100,000 ar gyfer gwaith adfer ar ôl y digwyddiad. Disgwylir i hyd at 25,000 o ymwelwyr fynychu'r Eisteddfod bob dydd.

Os bydd Caerdydd yn llwyddiannus yn ei chais i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 bydd yr Eisteddfod yn un o uchafbwyntiau rhaglen y flwyddyn. Ond hyd yn oed os na bydd y cais yn llwyddiannus - disgwylir y datganiad mewn ychydig o fisoedd - mae'n galonogol gweld bod ymrwymiad y ddinas tuag at yr Eisteddfod yn gadarn.

Dangosodd Eisteddfod yr Urdd bod Caerdydd yn barod i estyn croeso i Gymry o bob rhan o'r wlad a thu hwnt - gobeithio gallwn brofi unwaith eto bod y Brifddinas yn lleoliad priodol i'r Brifwyl.

# HWYL Y PANTO YN THEATR Y CRWYS



Mae Cymdeithas Ddrama'r Crwys yn ymestyn yn ôl i ddauddegau y ganrif ddiwethaf. Bu ambell gyfnod digon tawel yn ystod y blynyddoedd ond ers rhyw ddeunaw mlynedd bellach mae'r llwyfannu wedi bod yn ddifwlch. Eleni, am y tro cyntaf erioed, torrwyd tir newydd gyda chynhyrchiad arobryn o'r Panto 'Llew Llanbethma'. Eiddo Eglwys y Tabernacl yw'r gwaith yma a chafwyd ei chaniatad parod i addasu a diweddaru y sgript gwreiddiol. Bu'r arloesi hwn yn llwyddiant digamsyniol a chafwyd pedwar perfformiad graenus o flaen cynulleidfaoedd hwyliog a gwerthfawrogol iawn. Uwch-gyfarwyddwr y Gymdeithas yw George Owen ac ef a fu'n gyfrifol am lywio y cynhyrchiad hwn. Yn y llun mae'r Panto yn cyrraedd ei benllanw gyda phriodas Annie Meri a Llew, Twmplen Dew a Twm Ffat.

# Y Dinesydd

**Mawrth, Rhif 279.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd.*
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Siân Parry-Jones

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Hywel Jones

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Ebrill/Mai 2003 erbyn 21 Mawrth at:**
Hywel Jones, 4 Heol Heath Halt, Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF23 5QF (Ffôn: 029-2021-1855; e-bost: hywel.jones4@ntlworld.com)

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas. Mae ein hysbysebwyr yn tystio pa mor effeithiol a rhesymol yw hysbysebu yn Y Dinesydd. Ar ben hynny, mae pob hysbyseb yn cyfrannu at gynnal Y Dinesydd, gan fod incwm hysbysebion yn hanfodol i barhad y papur.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd*, cysylltwch â MENNA GWYN, 41 Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041-8270; e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk).

## DERBYN A DOSBARTHU COPÏAU

Os ydych yn cael anhawster i gael gafael ar gopïau o'r *Dinesydd*, neu os ydych yn barod i fod yn ddosbarthwr, cysylltwch â ROBIN JONES, 1 Kings Rd, Radur, Caerdydd (Ffôn: 029-2084-2929).

Os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, cysylltwch â CERI MORGAN, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG (Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com).

## CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd*. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor Y Dinesydd, Dr E. WYN JAMES, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).


## CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato dan ofal Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG
(Ffôn: 07774-816209;
e-bost: ceri33@btopenworld.com).



## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 39** **Mawrth 2003**



**Ar Draws**

1. Rhwyga dy gochl mewn man i lanhau (6)
5. Awydd darn o sigâr fel sosej (6)
9. 25 heb aur o Ffrainc yn dilyn Dai yn ddigalon heb gân (6)
10. 'Fe'th welais di ar ___ ___ plas' (I.D.Hooson) (5,1)
11. Cael tôn ar yn ail yn ein triawd ni (4)
12. Un o Wynedd efallai yn gorwedd o gwmpas hanner glwth (8)
14. Mae byrnio diddewedd o gwmpas Chwefror 1af yn achosi smotiau (6)
16. Ffeindio'r ffiniau yn ôl yng nghanol y mynydd (6)
19. Gwneud Bae Ewart yn ddinas orllewinol (8)
21. A yw rhwydwaith Llywelyn yn fwy buddiol? (4)
22. Paratoi er lles y ddau (6)
23. 'Ni ___ un erioed mor llan
A'th fantell werdd, a'th euraid rudd' (I.D.Hooson) (6)
24. 'Mewn ffiol ddrud o sisial pur
Yn neuadd ___ ___ ___ ei ffawd' (I.D.Hooson) (6)
25. 'Yn dawnsio yn y gwynt a'r glaw
I bibau pêr rhyw ___ cudd' (I.D.Hooson) (6)

**I Lawr**

2. Os na ddychweli iddo yr eirth gwyllt…(7)
3. 'Rwy'n ___ gweld ei degwch Ef
Sy uwch popeth is y rhod' (W.W.) (7)
4. '___ hefyd yn yr Arglwydd, ac efe a ddyry i ti ddymuniadau d y galon.' (Salmau) (9)
6. A yw lle'r gof fel ia toddedig? (5)
7. A yw'n ne' yn y sedd ôl i'r aelod yma? (7)
8. Llestr yfed y gw ^ yr dyn amdano (7)
13. Canmolwn yn awr ein ___ ___ (4,5)
14. 'Brawd erbyn dydd o gledi,
___ ___ mewn dw ^ r a thân.' (D.W.) (5,2)
15. Yn syllu mewn dychryn gwyllt am Emrys (2,5)
17. Mae addysg Eleri yn cynnwys yr anfad (7)
18. 'Ond ___ ___ bob rhyw gerdd
Ni ddawnsiet mwy ___' (I.D.H.) (4,3)
20. 'Fe'th welais di mewn llester pridd
Ar ffawydd fwrdd gwerinwr ___' (I.D.H.) (5)

**Croesair Rhif 38**

**Ar draws:** 1. Cacen; 4. Cwta; 8. Ebillion; 9. Ymylu; 10. Dial; 11. Nefolaidd; 13. Cywarch; 14. Iasoer; 16. Talacharn; 17. Gwau; 20. Gwydn; 21. Gwyrddni; 22. Eben; 23. Genyn. **I lawr:** 1. Cread; 2. Cain a chwalwyd; 3. Naid; 4. Cansen; 5. Trysorau; 6. Sycamorwydden; 7. Llueddwr; 12. Trychineb; 13. Cwtogi; 15. Cragen; 18. Union; 19. Dysg.

Derbyniwyd 16 ymgais, ac 13 ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfr y tro hwn i Rhiannon Evans, 8 Elmgrove Road, Yr Eglwys Newydd. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Megan Griffiths, Beryl Hall, Gaenor Hall, Heledd Hall, Gwenda Hopkins, H.O.Hughes, Gethin Jones, Margaret Jones, Buddug Roberts, Dilys Pritchard-Jones, Huana Simpson a James Wiegold.

**Cystadleuaeth Mawrth**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 21 Chwefror 2003.

## TRYSORYDD

Gyda'r rhifyn hwn, daw cyfnod Rheon Tomos yn Drysorydd *Y Dinesydd* i'w derfyn. Diolchwn yn gynnes iawn iddo am flynyddoedd o waith diwyd a chydwybodol yn y swydd. Ceri Morgan yw'r Trysorydd newydd. Diolchwn iddo yntau am ei barodrwydd i ymgymryd â'r swydd, a dymunwn bob rhwyddineb iddo yn y gwaith. Dylid anfon unrhyw ohebiaeth ato i swyddfa Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG. Rhif ei ffôn symudol yw 07774-816209, a'i gyfeiriad e-bost yw ceri33@btopenworld.com.

## DIOLCH

Diolchwn i'r Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Eglwys y Tabernacl (Yr Ais), Eglwys y Crwys, Eglwys Salem Treganna, Eglwys Minny Street, Eglwys Ebeneser, Cylch Cinio Cymraeg y Barri, Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch, Cymrodorion y Barri, Cymrodorion Caerdydd, ynghyd â nifer o unigolion, am eu rhoddion hael i gronfa'r *Dinesydd* yn ddiweddar. Heb roddion o'r fath ni fyddai modd cyhoeddi'r papur. Diolch o galon am eich cefnogaeth.

## LLONGYFARCHIADAU

... i Eleri Haf Cosslett, Caerdydd, ar ei dyweddïad â'r Dr Adam Musson o Abertawe. Mae'r ddau yn gweithio yn Llundain ac yn byw yn St Albans.

...i Angharad Evans a James Gregory ar eu dyweddïad. Byddant yn priodi yng Nghapel Minny St yn yr haf. Mae Angharad yn ferch i Margaret a Gwynne Evans, Parc y Rhath a James yn fab in Mr a Mrs Henry Gregory o Guildford.

... i Catrin a John Howkins o Llanfair yn y Fro ar enedigaeth eu mab Harri Tomos, brawd bach i William Rhys ac ŵyr arall i Ceri ac Audrey Jones o Ddinas Powys.

## TALENT AR Y TANNAU

Llongyfarchiau i Mali Llywelyn, 16eg oed o Benarth, am ennill Gwobr Goffa Barbara Owen a roddir bob blwyddyn gan siop David Morgan am gyfraniad eithriadol gan aelod newydd i Gerddorfa Ieuenctid Caerdydd a'r Fro. Ymunodd Mali â'r gerddorfa ddeunaw mis yn ôl fel telynores, ac mae ar hyn o bryd yn gweithio'n galed yn paratoi ar gyfer datganiad unigol ar y piano yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ym mis Mawrth.

## RONA MORGAN EDWARDS

Cwta chwech wythnos ar ôl marw Bryan, ei gŵr, bu farw Rona Morgan Edwards yn 61 oed. Fe wyddai llawer nad oedd hi'n dda ei hiechyd ond prin y meddyliodd unrhyw un bod y diwedd mor agos.

Cyfeillgarwch a chynhesrwydd yw'r ddau air sy'n brigo i'r wyneb wrth feddwl am Rona. O'r funud cyntaf i rhywun ei chfarfod roedd hi'n gyfeillgar ac yn annwyl, yn mwynhau cwmni ac wrth ei bodd efo sgwrs a chlonc. Fe gymerai diddordeb ym mhawb gan fod yn barod i wrando ac yn barod iawn ei chymwynasau. Gallasai siarad yn eithaf plaen gan ddweud yn union yr hyn oedd ar ei meddwl gan drin pawb yn union yr un fath. Bu'n gyfaill annwyl a ffyddlon i nifer fawr o bobl.

Graddiodd mewn Ieithoedd Modern ym Mhrifysgol Llundain gan arbenigo mewn Almaeneg a Ffrangeg, Wedi dyddiau coleg bu'n athrawes yn Watford am gyfnod cyn mynd i ddarlithio mewn coleg technegol. Yn y cyfnod hwn y cyfarfu â Bryan ac ymhen amser ei briodi. Bu'r ddau yn byw am gyfnod yn Llundain ac wedyn Caerdydd cyn symyd i ardal Pwllheli.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â theulu Rona.

**Meirion Lloyd Davies**

## CAERDYDD A'R CREFYDDAU

Pan hedfanodd yr awyrennau hynny i mewn i dyrau Canolfan Fasnach y Byd ac adeilad y Pentagon ar Fedi 11, 2001, newidiwyd y byd ar amrantiad. Bu'r canlyniadau gwleidyddol, militaraidd ac economaidd yn aruthrol; canlyniad arall, llai dramatig o bosibl, oedd i'r berthynas o gyd ddeall oedd yn graddol ddatblygu rhwng crefyddau'r byd a'i gilydd gael ei siglo. Tyfodd awyrgylch o ofn a diffyg goddefgarwch, ac aethom i gredu bod pob Muslim yn derfysgwr cudd. Porthi ar yr ofnau hyn a wna Plaid Genedlaethol Prydain ar hyn o bryd, ac yn is-etholiad Halifax cafodd eu syniadau hiliol dir ffrwythlon.

Beth am ddinas Caerdydd? Bu'n gyrchfan i bobl o bob rhan o'r byd ers cenedlaethau, ac mae hynny wedi esgor ar gymunedau aml-ddiwylliannol ac aml-grefyddol naturiol. Ond sylwais ar ddau beth yn ddiweddar. Yn gyntaf, bûm mewn arddangosfa yn yr eglwys Norwyeg yn y Bae oedd yn dangos fel y byddai trigolion Bute a Tiger Bay yn cefnogi gwyliau crefyddol ei gilydd yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn anffodus, cafodd nodyn trist ei daro ar ddiwedd yr arddangosfa, oherwydd y llynedd tarfwyd ar orymdaith Gristnogol ar Ddydd Gwener y Groglith. Yna, yn ail, ar Ionawr 23 eleni (ychydig ddyddiau cyn Dydd Rhyngwladol Cofio'r Holocost), roeddwn mewn cyfarfod o gangen Caerdydd o Gyngor yr Iddewon a Christnogion, ac fe leisiwyd ofn yno yn wyneb cynnydd diweddar mewn gwrth-Iddewiaeth. Os yw hynny'n wir, mae'n adlewyrchiad trist iawn ar ein sefyllfa gyfoes.

Mae yna ddwy gymdeithas grefyddol bwysig yn cyfarfod yng Nghaerdydd ers rhai blynyddoedd, sef Cyngor yr Iddewon a Christnogion a Grŵp Rhyng-grefyddol Caerdydd. Nod y naill a'r llall fel ei gilydd yw hybu gwell dealltwriaeth rhwng deiliaid gwahanol grefyddau'r byd, ac mae gwir angen hynny heddiw. Mae pwyslais Cyngor yr Iddewon a Christnogion yn ddiwinyddol a beiblaidd: yn y cyfarfod diwethaf, er enghraifft, roedd Dom. Henry Wansborough o Rydychen yn siarad ar Ysgrythurau'r Iddew yn y traddodiad Cristnogol. Mwy cymdeithasol yw pwyslais y Grŵp Rhyng-grefyddol, a gwahoddir siaradwyr i sôn am eu profiad yn byw a gweithio mewn sefyllfaoedd rhyng-grefyddol: carchar Caerdydd, er enghraifft, yr heddlu, ysbytai'r ddinas a'i Phrifysgolion. Nid mater o gymysgu neu gyfaddawdu cred mo hyn, ond gwrando ar straeon ein gilydd er mwyn chwalu rhagfarnau.

**Glyn Tudwal Jones**

## YSGOLORIAETH DAN LYNN JAMES


Gwahoddir ceisiadau i ennill Ysgoloriaeth Dan Lynn James 2003. Pwrpas yr ysgoloriaeth yw rhoi cymorth ariannol i ddysgwyr sydd am barhau i astudio neu ddefnyddio'r Gymraeg ac ystyrir y ceisiadau gan banel ar ran CYD. Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd eisoes yn gefnogwyr CYD.

Mae hyd at £250 ar gael, a gall ymgeiswyr wneud cais i ariannu unrhyw weithgaredd neu brosiect a fydd yn ei gynorthwyo i ddysgu'r Gymraeg. Mae ffurflenni cais ar gael o swyddfa CYD yn 10 Maes Lowri, Aberystwyth, SY23 2AU, ffôn 01970 622143 neu jjt998@aber.ac.uk a dylid dychwelyd y ffurflen erbyn Ebrill 1.

## THEATR Y CRWYS

Mae defnydd cynyddol yn cael ei wneud o theatr y Crwys gan grwpiau o'r tu allan i'r Eglwys. Yn dilyn llwyddiant y panto, ddiwedd y mis fe ddefnyddwyd y theatr gan Gymdeithas Ddrama y Brifysgol i gyflwyno rhaglen nodwedd ar batrwm "review". Yn ystod y mis yma bydd Chwaraewyr Howardian yn lwyfannu eu cynhyrchiad nhw o'r ddrama "Dead Guilty" gan Richard Harris. Mae'r theatr ar gael i'r gymuned. Os ydych am wybodaeth bellach cysylltwch â Bob Roberts ar Caerdydd 20627903.

## BWS I'R BAE




Mae gwasanaeth bws newydd sbon, i gysylltu canol y ddinas â'r Bae, newydd ddechrau. Bydd y bws yn gadael bob 10 munud yn ystod yr wythnos, a phob chwarter awr gyda'r nos ac ar y penwythnosau.

Mae arosfannau yng nghanol y ddinas ar ochor ddeheuol yr Orsaf Ganolog a gyferbyn â gwesty'r Marriott, a bydd y bws yn teithio heibio Neuadd y Sir i'r Cynulliad ac yna heibio Cei'r Forforwyn ar ei ffordd yn ôl i'r ddinas. 60c yn unig yw'r gost un ffordd a'r gobaith yw bydd y bws yn cael ei ddefnyddio gan bobl sy'n gweithio a byw yn y Bae yn ogystal â'r rhai sy'n ymweld. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â C2C ar 029 2087 2088, gwasanaeth Traveline ar 0870 608 2 608 neu ewch i www.cardiff.gov.uk/bayxpress.

## CLWB COFFI IFOR BACH

Bob amser cinio dydd Mercher (12.15pm-2.15pm) mae yna gyfle gwych nid yn unig i'r sy'n siarad Cymraeg fel ail iaith ond i bawb sy'n chwilio am rywlei gymdeithasu yn Gymraeg.

Dechreuodd y Clwb Coffi yn y 90au, a gyda 45 o gyfarfodydd y flwyddyn mae'r aelodau, erbyn hyn, yn nabod ei gilydd yn dda. Mae'r aelodaeth yn cynnwys pob oedran; mae rhai wedi ymddeol, rhai'n ddi-waith neu'n dewis peidio â gweithio a rhai yn gweithio yn y ddinas ac yn galw i mewn i fwyta eu brechdanau a chael paned cyn brysio'n ôl i'r swyddfa.

Patrwn arferol y cyfarfodydd yw cyfnewid newyddion personol, trafod hynt a helynt y byd gyda chymorth bwletinau newyddion Sbectel neu ryw ffynhonnell arall ac wedyn gweithgaredd ysgafnach fel cwis, er enghraifft. O bryd i'w gilydd mae aelodau'n cwrdd ar achlysuron eraill fel ymweld â'r Eisteddfod
Genedlaethol neu theatr i wylio drama neu ffilm Gymraeg.

Os ydych chi'n chwilio am gyfle i ymarfer (neu wella) eich Cymraeg (yn rheolaidd neu'n achlysurol) mae yna groeso i chi yn y Clwb Coffi, yng Nghlwb Ifor Bach, Womanby Street. Noddir y Clwb coffi'n rhannol gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr ac yn rhannol gan Glwb Cymraeg Caerdydd. Manylion oddi wrth: Nic ap Glyn (029) 2035 0088.

## NODDI COEDEN

Mae'r parciau'n gorchuddio bron iawn degfed o'n ddinas. Mae llawer o drigolion yn mwynhau'r parciau ac mae gan bawb ei ffefryn, gyda mwy na 2.4 miliwn yn ymweld â Pharc y Rhath bob blwyddyn. Mae'r Cyngor yn rhedeg cynllun noddi sy'n rhoi cyfle i unrhyw un, gan gynnwys trigolion, teuluoedd, ysgolion, busnesau neu grwpiau cymunedol, i noddi neu fabwysiadu coeden newydd neu gyfredol, mainc neu sedd yn unrhyw un o barciau'r ddinas.Gall noddi goffáu digwyddiad pwysig mewn bywyd person, neu atgoffa rhywun o berson sy'n annwyl iawn iddynt.

Mae modd mabwysiadu coeden gyfredol am £60, neu blannu un newydd rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth am £140. Mae placiau ar gael am gost ychwanegol. Mae sedd, gyda phlac wedi'i arsgrifio, yn costio £465.

Mae staff Gwasanaethau'r Parciau yn hapus iawn i drafod noddi, a darparu rhagor o wybodaeth a ffurflenni cais. Cysylltwch â Gwasanaethau'r Parciau yn: 2 Alexandra Gate, Ffordd Pengam, ger Rover Way, Caerdydd, CF24 2SA. Fel arall, ffoniwch 2068 4000 neu e-bostio WedalRoadReception@cardiff.gov.uk

## LOGO IEUENCTID NEWYDD

Mae dros 4000 o bobl ifanc Caerdydd wedi pleidleisio i ddewis y logo swyddogol ar gyfer Fforwm Pobl Ifanc Caerdydd.

O'r 30,000 o ffurflenni pleidlais a ddosbarthwyd i ysgolion a chlybiau, dychwelwyd 4198 ohonynt a dewiswyd enillydd clir o'r pum cynnig, gyda dros 1000 o bleidleisiau.

Sefydlwyd Fforwm Pobl Ifanc Caerdydd i roi llais i'r bobl ifanc ym materion polisi cyhoeddus. Caiff ei ystyried fel cyfrwng i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfathrebu ag ieuenctid y Ddinas, ac yn fodd i bobl ifanc ddadlau dros y math o wasanaethau y dymunant i'r cyrff cyhoeddus eu cynnig.

Sefydlir y Fforwm, gan ac ar gyfer pobl ifanc, â grŵp llywio o bobl ifanc a ddewisodd y pum logo, gan anfon y ffurflenni allan a goruchwylio cyfrif y bleidlais.

Roedd pobl ifanc hefyd yn gysylltiedig â chynhadledd gyntaf y Fforwm, yn yr Hen Lyfrgell ym mis Tachwedd, ac maent yn trefnu cyfarfodydd fforwm lleol i fwyafu'r cyfranogiad.

Mynychodd gweithwyr Ieuenctid ar draws y DU gyfarfod Fforwm Pobl Ifanc Caerdydd yn ystod Cyngor Cyffredinol Gwobrau Dug Caeredin ym mis Tachwedd, pryd dewiswyd y cynllun fel Grŵp Astudio. Erbyn hyn, gall y Bobl Ifanc ennill achrediad ffurfiol drwy wobr Dug Caeredin oherwydd eu cyfraniad yn y FfPIC.


I fod yn rhan o'r Fforwm Pobl Ifanc, cysylltwch â Julia Rooney, Cydlynydd y Fforwm ar 2056 9198, neu e-bost yn youthforum@cardiff.gov.uk.




*Pobl ifanc gyda'u logo newydd*

## CANU DROS Y PLANT

Cynhelir 13eg 'Cymanfa Ganu' Flynyddol yr Arglwydd Faer yng nghapel y Tabernacl, yr Aes, Caerdydd dydd Sul, 23 Mawrth am 7.30pm. I lawer o bobl, mae Cymanfa Ganu Caerdydd yn draddodiad blynyddol - dathliad o ganu emynau Cymreig ar ei orau, sydd hefyd yn helpu i godi arian i elusennau teilwng.



Côr Caerdydd fydd yn arwain y gynulleidfa i ganu hoff emynau Cymreig, gyda chymorth yr unawdydd Huw Llewellyn, myfyriwr yng Ngholeg Cerdd a Drama Frenhinol Cymru. Eto eleni, mae'r elw'n mynd i elusen ddewisol yr Arglwydd Faer sef Apêl Arch Noa ar gyfer Ysbyty Plant Cymru.

Nid oes rhaid neilltuo seddi a byddant yn cael eu rhannu ar sail y cyntaf i'r felin gaiff falu. Mae tocynnau ar gael gan Paul Leverett, Cydlynydd Digwyddiadau'r Sir am £5, sy'n cynnwys rhaglen. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 2087 1769 neu e-bostio: p.leverett@cardiff.gov.uk

# Newyddion o'r Eglwysi

## TABERNACL CAERDYDD

**Genedigaeth**

Llawenydd i bawb oedd clywed am enedigaeth Osian Llyr Williams, sef mab Rhian a Marc Jon Williams. Daeth i'w oedfa gyntaf o fewn tair wythnos i'w enedigaeth.

**Dyweddiad**

Bydd pawb yn cyd-ddathlu llawenydd Meuryn Hughes a Julie Fookes wrth iddynt gyhoeddi eu dyweddiad ddiwedd mis Ionawr. Gobeithia'r ddau briodi yn ddiweddarach yn y flwydyn. Bu 2002 yn flwyddyn ddirdynnol o anodd iddynt, ac fe obeithiwn y bydd iechyd Meuryn yn gwella eto erbyn dydd y briodas.

**Aelod Newydd**

Roedd yn dda gennym dderbyn Nia McVeigh yn aelod newydd yn ystod mis Ionawr. Magwyd hi yn Eglwys Calfaria, Penygroes.

**Cyfarfod Cytun ar Iraq**

Bu'r Tabernacl yn fan i gynnal cyfarfod yn enw Cytun ganol Ionawr, gan roi cyfle i gynrychiolaeth deilwng o blith eglwysi De Cymru ddod ynghyd i drafod y gwahanol agweddau sy'n codi o fygythiadau America a Phrydain i fynd i ryfel yn erbyn Iraq. Roedd cynrychiolaeth o blith y gwleidyddion a'r arweinwyr eglwysig ar y panel.

**Chwiorydd**

Ailgychwynnodd y cyfarfodydd prynhawn Iau ddechrau Chwefror, gyda'r gweinidog yn annerch. Gobeithio bydd y cwmni yn cynyddu eto fyth yn ystod y flwyddyn bresennol

**Cyngerdd Côr yr Eglwys**

Bu'r côr wrthi ers rhai wythnosau yn dysgu Offeren St Theresa gan Joseph Haydn. Bydd y gyngerdd yn cael ei chynnal ar nos Fawrth, 1 Ebrill. Ymhlith yr unawdwyr bydd Rhian Williams o Gaerfyrddin a Timothy Richards - bellach o Glydach. Mae gwahoddiad cynnes i bawb i ddod i'r gyngerdd.

## EBENESER, CAERDYDD

Yn y cyrddau gweddi cenhadol yn Ionawr a Chwefror bu dau siaradwr gwadd yn rhannu eu profiadau. Yn Ionawr daeth y Parchg. Aled Edwards i sôn am ei waith fel swyddog cyswllt Cytûn yn y Cynulliad. Yn Chwefror daeth Mr Alun Evans atom i rannu ei brofiad ynglŷn ag ymweliad y bu ef a rhai o ddisgyblion Llanhari arni i Uwch Gynhadledd Amgylcheddol Ryngwladol Johannesburg, De Affrica yn 2002.

Ar nos Iau Ionawr 23 aeth 18 o aelodau Ebeneser i bryd eciwmenaidd a drefnwyd gan Gyngor Eglwysi Canol y Ddinas yn Spiro's, Eglwys Sant Pedr, Y Rhath. Cafwyd gwledd ddanteithiol a chwmni diddan a chyfle i gymdeithasu gydag aelodau o eglwysi eraill y brifddinas. Cafwyd sgwrs ddifyr gan y Tad John Owen, Caplan Catholig Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

Ailgydiodd Cymdeithas egnïol y Chwiorydd yn ei gweithgareddau ar ôl seibiant byr ar ddechrau'r flwyddyn. Cafwyd cinio cawl eithriadol o flasus ar ddydd Iau y 23ain o Ionawr a chyfle i gymdeithasu a rhoi'r byd yn ei le.

Cafwyd oedfa arbennig ar nos Sul 16eg Chwefror gyda nifer o'n haelodau'n cymryd rhan sef, Teleri Jones, Buddug Williams, Elin Kate Evans, Mair Hughes, Llinos Pierce Williams a Mari Rhys. Cafwyd unawd gan Audrey Ellis sef "Hawl i Fyw" a gyfansoddwyd gan Dafydd Iwan. Trefnwyd yr oedfa gan Eira Jones.

Ar yr 8fed a'r 9fed o Fawrth cynhelir Gwyl Bregethu Hanner Blynyddol Ebeneser am 7.00 nos Sadwrn a 10.30 a 6.00 dydd Sul. Y pregethwr gwadd eleni fydd y Parchg. Ronald Williams, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

## BETHEL, RHIWBINA

Cynhelir Dosbarth Beiblaidd ar foreau Mawrth yn y capel dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan. Y Brenhinoedd sy'n cael y sylw y tymor hwn.

Cydymdeimlir â Ken a Hazel Williams, Rhiwbeina. Bu farw chwaer i Ken yn Cross Hands a hefyd ag Emrys ac Audrey Jones, Sully. Bu farw brawd Emrys yn Nolgellau.

## EGLWYS Y CRWYS

**Yr Ysgol Sul**

Wedi prysurdeb tymhorol y Nadolig daeth cyfnod tawelach i ran aelodau yr Ysgol Sul. Serch hynny bu dosbarth Mr David Jones yn brysur yn paratoi gwasanaeth teuluol a gynhaliwyd fore Sul Chwefror 2il. Cafodd pawb oedd yn bresennol fendith o gael cyd-addoli yng nghwmni y plant a'u rhieni. Thema y gwasanaeth oedd Teulu Dyn.

**Cylch y Chwiorydd**

Cafodd aelodau y ddau gylch yma gyfarfodydd gwerthfawr yn ystod mis Chwefror yn gwrando ar bedwar siaradwr gwadd yn traethu ar destun o'u dewis. Aeth y Dr Bethan Jones ar drywydd "Esgyrn Bran" tra i Rhiain Phillips gyflwyno tri o arweinwyr y rhyfel rhwng y Taleithiau. Aeth Myfanwy Jarman yn ôl i Sir Fôn am eu hatgofion ac fe roddodd y Parch D Haydn Thomas beth o'i hanes fel Gweinidog ac fel gweinyddwr gyda Chymdeithas Henoed Cymru.

**Y Gymdeithas**

Nos Wener Ionawr 31ain cafodd aelodau y Gymdeithas gyfle i wrando ar bedwar siaradwr o blith aelodau y Capel, yn rhannu o'u diddordebau gyda chynulleidfa deilwng iawn. Cerdded a chrwydro mynyddoedd Cymru oedd dewis testun Gwen Jones ac roedd asbri a brwdfrydedd ei chyflwyniad yn adlais o alwad y mynydd. Galwad y llwyfan oedd maes diddordeb Beni Harries ac fe rois inni lun a lliw ei brofiadau dros gyfnod o flynyddoedd. Geiriau ac enwau oedd cloddfa aur Brian James a chafwyd ganddo beth o ffrwyth ei lafur a'r gobaith am drysorau pellach. Y cyfrannwr olaf oedd Gareth Rhys Davies, canwr proffesiynol gyda Chwmni Opera Cymru, ac ychydig yn wahanol i'r tri arall roedd Gareth yn medru cyfuno gwaith a diddordeb gan fod y ddau yn gor-gyffwrdd.

**Y Grŵp Merched**

Cyfarfu y Grŵp Merched nos Lun Chwefror 10fed i wrando ar Menai Davies yn cyflwyno anerchiad diddorol dros ben ar y testun "Celfyddyd Hwnt ac Yma". Yn ei sgwrs cyfeiriodd Menai at y celfyddydau yn eu holl agweddau gan fawrygi y ffaith iddi hithau ddrachio yn ddwfn o'u gwerthoedd yn ystod ei bywyd.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG

Ar brynhawn Sul 9 Chwefror cynhaliwyd Oedfa i'r Dysgwyr, a daeth nifer o ddysgwyr ynghyd i fwynhau'r gwmnïaeth a'r te. Yn ystod yr oedfa croesawyd Trystan Hallam atom am gyfnod o dair wythnos. Mae Trystan ar ei flwyddyn gyntaf yn y Coleg Diwinyddol ym Mryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn ystod y tair wythnos caiff brofiad o waith yr eglwys a'r weinidogaeth. Ar ddydd Sul 23 Chwefror, pregethodd yn oedfaon y bore a'r hwyr, a bu'n Sul calonogol.

Ar nos Fawrth 11 Chwefror daeth y Parch. David James Morse atom i siarad am ei waith cenhadol yn Sbaen a De America. Yna, ar nos Iau 13 Chwefror, cawsom gwmni Alan ac Ann Penrose yng nghyfarfod y gwragedd. Darluniwyd yr angen yn Rwmania a'r ymateb i'r angen hwnnw. Cafwyd cyfarfodydd bendithiol ar y ddwy noswaith, ac anogaeth i ddyfalbarhau yn ein cefnogaeth i'r gwaith.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Bu dechrau'r flwyddyn yn drwm ei cholledion i'r eglwys a ninnau colli'n pedwar o'n haelodau. Cofiwn yn annwyl iawn am Syr Goronwy Daniel, Mr Alun George, Mr Alun Griffiths a Mrs Gwendoline Rees a chydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r teuluoedd yn eu hiraeth.

~

Gyda'r flwyddyn newydd gwelwyd cychwyn cyfres newydd dan arweiniad ein Gweinidog, Owain Llyr, - cyfle i ystyried a myfyrio dros weithiau celf traddodiadol a modern. Daeth cynulleidfa niferus ynghyd yn y festri i'r cyfarfod cyntaf ac edrychwn ymlaen at barhad y gyfres fisol hon. Y gwaith "traddodiadol" i gael ei ystyried yn y cyfarfod cyntaf oedd "The Return of the Prodigal Son" gan Rembrant, a dyna fu sail un o'r nifer gweithgareddau bu criw o'r bobl ifanc yn ymgymryd ag ef yn ystod eu penwythnos ympryd er budd World Vision ddechrau Chwefror wrth iddynt lunio murlun wedi ei seilio ar y gwaith. Daeth y penwythnos ympryd i ben gyda'r gwasanaeth cynnar fore Sul ac er y diffyg bwyd a chwsg, fe'n arweiniwyd yn yr oedfa gan y bobl ifanc (ynghyd â Carys Davies ac Owain Llyr). Hynod effeithiol wrth ddod â'r oedfa i'w therfyn oedd cael ein hamgylchu, fel cynulleidfa, gan gadwyn, eto wedi'i gwneud yn ystod yr ympryd, gydag enw ar bob un o'r 1000 dolen yn cynrychioli'r plant sy'n marw o newyn bob awr.

Mae'r Gymdeithas yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd niferus ar yn ail nos Fawrth. Ganol Ionawr, cafwyd darlith gyhoeddus ar y cyd â'r Academi gyda'r Parchg Harri Parri yn cyflwyno, mewn iaith gyfoethog, fyrlymog, ychydig o hanes y teulu. Hyfrydwch a mwynhad i'r llu cyfeillion oedd cael eistedd yn ôl a gwrando ar storiwr penigamp yn sôn am y cymeriadau niferus yn ei deulu. Ddechrau Chwefror, a chyfle i groesawu cyfeillion Salem, Treganna i'n plith ac unwaith eto cawsom gyfle i eistedd yn ôl a gwerthfawrogi rhaglen nodwedd o'u heiddo yn seiliedig ar Edward Mathews, Ewenni. `Roedd yna ôl gwaith ymchwil a pharatoi tu `nôl i'r cyflwyniad hyfryd yma - diolch i gyfeillion Salem am ddod atom. Bythefnos yn ddiweddarach, ac er gwaetha'r oerfel y tu allan, cawsom hwyl arbennig yng nghwmni Mr Idwal a Mrs Mair Hughes wrth iddynt roi prawf ar ein gwybodaeth (neu anwybodaeth!) mewn cwis. Eto `roedd ôl gwaith ymchwil manwl ar lawer o'r cwestiynau a mawr yw ein diolch i'r ddau am roi noson arall o fwynhad i ni.

## CYNGERDD BRYN TERFEL

Mae Neuadd Dewi Sant wedi sicrhau cyngerdd ar gyfer y bariton-bas rhyngwladol ei fri Bryn Terfel, gyda pherfformiad datganiad yn y Neuadd Ddydd Sul 11 o Fai (7.30 pm). Mae tocynnau i'r cyngerdd, sy'n costio £10.00, £15.00, £20.00, £30.00, £35.00 a £40.00, ar werth o Swyddfa Docynnau Neuadd Dewi Sant ar 029 2087 8444.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## APEL

Annwyl Olygydd,

Fel Cymdeithas roeddem yn falch iawn fod Prosiect yr Iaith Gymraeg yn Chubut wedi cael estyniad gan y Cynulliad yn ddiweddar. Fel rhan o'r Prosiect bydd chwech o fyfyrwyr yn dod draw o'r Ariannin i Lanbedr Pont Steffan yn yr haf am gwrs dwys wyth wythnos. Oherwydd sefyllfa economaidd bresennol yr Ariannin mae'n anodd i'r myfyrwyr gael hyd i gost tocyn i hedfan o Dde America i Gymru ac i'r perwyl hwn byddwn fel Cymdeithas yn noddi tri thocyn.


Hoffem wneud apêl at garedigion fyddai'n teimlo awydd cyfrannu er mwyn cynorthwyo i brynu mwy o docynnau. Os teimla rhywun ohonoch yr hoffai gyfrannu wnewch chi yrru siec yn ystod y dyddiau nesaf, os gwelwch yn dda, i Drysorydd y Gymdeithas - Rhys Jones, Llys Myrddin, Allt Saithaelwyd, LLANGEFNI, Ynys Môn, LL77 7TQ gan farcio yr amlen 'Cronfa Myfyrwyr Llambed'. Gwerthfawrogir pob cyfraniad

**Ceris Gruffudd**

Ysgrifennydd, Cymdeithas Cymru-Ariannin, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 3HE, Ffôn: 01970 828017, Rhoshelyg@btinternet.com

## YR URDD

### TAITH I BARIS



Ar Fore Sul 16 Chwefror cychwynodd 4 llond bws o ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 Ysgolion Cyfun Cymraeg De Cymru ar daith hir i Baris ar gyfer ymweliad a Pharc Eurodisney. Yn eu plith roedd 42 o ddisgyblion o Ysgol Gyfun Plasmawr, Ysgol Gyfun Glantaf ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Cyrrhaeddom gyrion Paris erbyn 7pm a chyfle i fynd am fwyd yn McDonalds ac ymlacio yn y gwesty. Bore Llun iffwrdd a ni am Eurodisney gan wario diwrnod cyfan yn y Parc - digonedd i bethau i'w gweld, teithiau anturus, siopau diri a digon o fwyd a diod. Gyda'r hwyr aethom ar daith ar gwch i lawr yr Afon Seine i weld atyniadau Paris wedi eu goleuo lan. Bore Mawrth cyfle i fynd ifyny'r Twr Eiffl. Fe aeth y rhan fwyaf ohonom i'r ail lawr - golygfeydd gwych, gyda'r gweddill yn cadw cwmni i ambell aelod o staff ar y gwaelod!!. Cychwyn adre wedyn gyda stop am ginio ar y ffordd. Cyrraedd yn ol yn hwyr wedi blino'n lan ond wedi tridie gwych. Diolch i holl ddisgyblion Ysgol Gyfun Plasmawr, Glantaf ac Ysgol Gyfun Bro Morgannwg am eu cwmni ar y daith a diolch arbennig iddynt am arddel eu Cymreictod ar hyd y daith.

### DYDDIADAU EISTEDDFOD

Eisteddfod Sir Uwchradd - 15/3/03, 9.00 y.b
- UWIC Colchester Av

Eisteddfod Sir Cynradd - 22/3/03, 9.00 y.b - UWIC Colchester Av

Eisteddfod Dawnsio Disgo a Dawnsio Creadigol - 27/3/03, 4.00 y.p - Ysgol Gyfun Glantaf

Mae angen gwilfoddolwyr i helpu yn y Steddfodau, helpu ar y drws ayyb. Os ydych yn fodlon helpu ffoniwch 029 2080 3354

## GADEWCH I NI E-GYFATHREBU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae ffigurau diweddaraf a ryddhawyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dangos bod dros 25,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd. Mae rhoi gwybodaeth i gynifer o bobl am ddigwyddiadau penodol, cyngherddau, dramâu, a gweithgareddau plant yn gallu profi'n anodd.

Mewn ymateb i'r her yma, bydd Menter Caerdydd yn lansio prosiect uchelgeisiol a chyffrous ar Ddydd Llun 31 Mawrth i sefydlu bas-data gynhwysfawr o gyfeiriadau e-bost i gynorthwyo i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg. Bydd y gohebydd a'r cyflwynydd adnabyddus Huw Llywelyn Davies a'r newyddiadurwraig boblogaidd sy'n dysgu'r iaith Gymraeg Lucy Cohen yn cofrestru eu cyfeiriadau e-bost nhw ar y diwrnod yma ac yn helpu gyda'r lawnsiad.

Mae Menter Caerdydd yn benderfynol o sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn chwarae rhan cyfannol ym mhob agwedd o fywyd Caerdydd: y tu fewn i'r gweithle, yn ystod oriau ysgol a thu allan i'r oriau yma. Mae'r Fenter yn weithredol iawn yn trefnu cynlluniau chwarae a chlybiau cyfrwng Cymraeg ar ôl ysgol ar gyfer plant ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn busnes ac mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden ar gyfer oedolion sy'n dysgu'r Gymraeg.

Dywed Siân Lewis, Swyddog Datblygu Menter Caerdydd, "Mae'r ymateb wedi bod yn syfrdanol hyd yn hyn, ac mae'r Fenter yn annog unrhywun sydd â chyfeiriad e-bost ac â diddordeb mewn gweithgareddau o bob math trwy gyfrwng y Gymraeg i'w ddanfon atom". I'r sawl sy heb gofrestru eto ar gyfer y gwasanaeth yma sy'n rhad ac am ddim, anfonwch eich cyfeiriad e- bost i SianLewis@mentercaerdydd.org, os gwelwch yn dda.

### Clwb Jiwdo Cymraeg

Yn ddiweddar y mae Menter Caerdydd wedi sefydlu Clwb Jiwdo Gymraeg. Dyma'r clwb cyntaf o'r fath yng Nghaerdydd. Y mae'r Clwb wedi atynnu dros 60 o blant Ysgolion Cymraeg Caerdydd. Rhedir dwy sesiwn pob nos Fawrth yn Ysgol Pencae, Llandaf, y gyntaf i blant blynyddoedd 1, 2 a 3 o 4 .30 y h - 5.15 y h, a'r ail I blant blynyddoedd 4, 5, 6 o 5.15 y h - 6.15 y h.



Caiff y sesiynnau eu rhedeg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal a staff profiadol a chymwys. Y mae James Evans yn siaradwr Cymraeg rhugl a Steve Withers (Prif hyfforddwr) wrthi'n brysur yn dysgu'r iaith Gymraeg. Bu i Steve gystadlu yng ngemau Gymanwlad 2002 ym Manceinion.

Dywed Sian Lewis (Swyddog Datblygu Menter Caerdydd): "Y mae'r ymateb wedi bod yn fantastig!. Dengys bod jiwdo yn boblogaidd nid yn unig ar gyfer bechgyn, ond merched hefyd. Mae jiwdo yn chwaraeon hynod fodern. Dyma'r clwb cyntaf o'r fath i'w sefydlu yn Ne Cymru. Heb os, y mae gofyn mawr ac angen dybryd i sefydlu Clybiau Chwaraeon Cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Rydym yn awyddus iawn i sefydlu llawer mwy o glybiau Chwaraeon Cymraeg o'r fath dros y flwyddyn nesaf."

### Clwb Clocsio Cymraeg Cyntaf Caerdydd

Yn ogystal â sefydlu clwb Jiwdo a Drama dros y chwech mis diwethaf, mae Menter Caerdydd wedi mynd ati i sefydlu Clwb Clocsio. Mae yna dros 20 o aelodau cyson gan y Clwb sydd yn cwrdd bob nos Lun yn ysgol Pencae, Llandaf. Hyfforddir y plant gan Gavin Ashcroft a Leah Jones, staff profiadol a chymwys.

Dyma'r Clwb Clocsio annibynnol cyntaf i'w rhedeg yma yng Nghaerdydd. Gobeithir y bydd modd cystadlu yn ogystal â pherfformio yn y dyfodol agos.

Dywed Swyddog Datblygu Menter Caerdydd, Sian Lewis: " Calonogol yw'r nifer sy'n mynychu'r clwb. Rydym yn hynod falch ein bod yn gallu sefydlu ystod eang o glybiau. Y mae'n bwysig bod clwb sydd at ddant pob disgybl Cymraeg Dinas Caerdydd. Edrychwn ymlaen at gael gweld perfformiadau gan aelodau'r clwb, yn ogystal â llwyddiant efallai yn yr Eisteddfodau!"

Os am fwy o wybodaeth ynghylch Menter Caerdydd yn gyffredinol, cysylltwch a Sian Lewis ar 02920 450529, neu e bostiwch: sianlewis@mentercaerdydd.org.

## DYNION - GOFYNNWCH AM EICH PAS BWS

O Ebrill ymlaen, bydd dynion sy'n 60 oed neu'n hŷn, yn gallu ymuno â mwy na 42,000 o bobl Caerdydd sydd eisoes â hawl i deithio ar y bysys yn rhad ac am ddim gan ddefnyddio'r holl wasanaethau lleol drwy Gymru gyfan.

O 1 Ebrill ymlaen, caiff y terfyn oedran i ddynion ei ostwng i 60, yn ôl y terfyn oedran cyfoes ar gyfer menywod. Ni fydd yn rhaid talu am y pas bws ac mae'r trigolion gwryw yng Nghaerdydd, a fydd rhwng 60 a 64 oed ar 1 Ebrill, yn cael eu hannog i ofyn am eu pas nawr i osgoi unrhyw oedi munud olaf.

Os ewch chi i gyflwyno eich cais chi'n bersonol yn Nhŷ Marland, yn agos i'r brif orsaf bysys a threnau, ni fydd angen i chi ddarparu ffotograff. Gallwch gael gafael ar ffurflenni cais yn eich llyfrgell leol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â C2C, canolfan gyswllt y Cyngor, ar 2087 2088.

## DYDDIADURON Y LOLFA

Mae Dyddiaduron 2004 Y Lolfa are waith. Er mwyn i'r rhestrau defnyddiol o gyfeiriadau cwmnïau a sefydliadau Cymreig sydd yn y dyddiadur fod mor gywir â phosib mae'r Lolfa yn ddibynnol ar ddefnyddwyr y dyddiadur i roi gwybod iddynt am unrhyw wybodaeth newydd neu gywiriad. Cysylltwch â Mared Roberts yn Y Lolfa drwy lythyr (Y Lolfa, Talybont, Ceredigion, SY24 5AP) neu e-bost (dyddiaduron@ylolfa.com) gydag unrhyw wybodaeth newydd i'w ychwanegu.

## LLWYDDIANT Y CLWB RYGBI

Camodd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd i rownd derfynol Cwpan Worthington wedi buddugoliaeth o 39-17 dros Glwb Rygbi Girling ar Barc Pont-y-Pwl ar ddydd Gŵyl Dewi. Chwaraeir y rownd derfynol yn erbyn Glyncorrwg yn Stadiwm y Mileniwm ar ddydd Sadwrn Ebrill 12, yn dechrau am 3 o'r gloch. Pris y tocynnau yw £5 a bydd gwybodaeth am sut i archebu tocynnau, a digwyddiadau cyn ac wedi'r gêm, i'w gweld ar wefan y Clwb, www.clwbrygbi.com. Dewch yn llu i gefnogi'r bechgyn!

# Bro Morgannwg



## MARCIAU LLAWN I YSGOL GYFUN Y FRO!

Mae Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, a agorodd gwta dair blynedd yn ôl, wedi derbyn adroddiad penigamp yn dilyn yr arolwg cyntaf o'r ysgol a gynhaliwyd gan Estyn ddiwedd y tymor diwethaf. Yn ôl yr arolygydd cofrestredig:

"Mae Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ysgol dda. Mae'n prysur gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer ei disgyblion ac yn saernïo ei nod o ddatblygu'r ysgol fel canolfan Cymreictod o fewn y gymuned mae yn wasanaethu. Mae safonau, drwyddi draw, yn uchel. Mae cyfran fawr o'r addysgu yn dda neu dda iawn ac mae ymateb y disgyblion i'r her osodir ar eu cyfer yn bositif a chadarn".

Rhoddir clod arbennig yn yr adroddiad i safonau ysgrifennu'r disgyblion o allu uwch, i safon yr addysgu mewn addysg gorfforol ac addysg bersonol a chymdeithasol, ac i ansawdd yr addysgu drwyddi draw, a ddisgrifir fel "un o gryfderau'r ysgol", gydag enghreifftiau o safonau da iawn ym mhob pwnc.

Â'r arolygwyr ymlaen i nodi fod "ethos yr ysgol yn symbylus ...ac mae'r ysgol yn cael ei rheoli a'i harwain yn dda iawn. Mae'n ysgol hapus lle mae safonau ymddygiad yn dda iawn; mae'r disgyblion yn gweithio'n dda gan ddangos brwdfrydedd ac ymroddiad. Caiff disgyblion eu gwerthfawrogi a'u parchu". Canfyddwyd fod datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda iawn, gyda datblygiad cymdeithasol yn enwedig yn cael ei gydnabod fel "un o gonglfeini'r ysgol". Mae'r system 'Buddies', lle mae disgyblion hyn yn mentora rhai iau, a Chyngor yr Ysgol yn enghreifftiau o gyfleoedd da i ddatblygu cyfrifoldebau cymdeithasol.

Mae llywodraethwyr yr ysgol wrth eu boddau gydag adroddiad yr arolwg. Meddai Cadeirydd y corff llywodraethol, Geraint Evans: "Gall y rhieni a'r llywodraethwyr fel ei gilydd ymfalchïo yn yr adroddiad gwych a'r hyn mae'r ysgol wedi ei gyflawni mewn amser mor fyr. Dyma dîm o arolygwyr annibynnol yn ategu fod arweiniad ardderchog ar yr ysgol a'r athrawon yn gwbl ymroddedig. Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd yw arwyddair yr ysgol, sy'n crynhoi ein gweledigaeth o alluogi pob disgybl i gyflawni ei lawn botensial beth bynnag fo'i allu, ac mae'n galonogol iawn fod yr arolwg wedi cadarnhau'r weledigaeth honno."

## CLWB Y WASG

Un o'r clybiau amser cinio newydd yn Ysgol Y Fro yw Clwb y Wasg, lle mae criw o ddisgyblion brwdfrydig yn cyfarfod bob dydd Mawrth i gynhyrchu datganiadau i'r wasg ac erthyglau ar gyfer Cylchlythyr yr ysgol. Aelodau'r Clwb fydd yn ysgrifennu cyfraniad yr ysgol i'r Dinesydd o hyn ymlaen, gan ddechrau gyda rhai o'r erthyglau yn y golofn hon.

## HOCI YW'R GÊM !

Ar y 23ain o Ionawr, enillodd tim hoci blwyddyn 7 Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ei gêm hoci cyntaf. Roedd y gêm yn erbyn Ysgol Gyfun Plasmawr a roedd yna chwaraewyr ar eu tim nhw o flynyddoedd 8 a 9! Dywedodd un o chwaraewyr Ysgol Plasmawr "Dydw i ddim yn gallu credu rydych chi ddim ond ym mlwyddyn 7!" Y sgôr terfynol oedd 2-1 i Ysgol Bro Morgannwg, gyda Danielle Harding ac Arianwen Denham yn sgorio.

**Jessica Luxmore** Blwyddyn 7

## CLWB GARDDIO

Mae gennym lond llaw o glybiau yn Ysgol Bro Morgannwg, fel mathemateg, chwaraeon, dadlau a dawnsio gwerin - beth bynnag yw'ch diddordebau chi, gallwch chi gymryd rhan mewn clwb. Un ohonynt yw'r clwb garddio. Rydyn ni'n mynd i drawsnewid darn bach o dir yng nghanol yr ysgol. Bydd y clwb yn cynllunio lle tawel i'r disgyblion eistedd ac ymlacio - ac hefyd i wneud yr ysgol yn fwy lliwgar!!

**Bethan Jones** Blwyddyn 7

## SIEC I BARNADOS AM WISGO JINS

Llwyddodd y disgyblion i godi £340 ar gyfer elusen plant Barnados' yn ddiweddar drwy ddiwrnod gwisg anffurfiol. Cyflwynwyd y siec mewn gwasanaeth ar 24 Chwefror i Mrs Iris Williams, sy'n gweithiuo'n wirfoddol i'r elusen.

## Y BACHGEN CYFLYMA YNG NGHYMRU?!

Enillodd Lloyd Evans, sy'n ddisgybl ym Mlwyddyn 9 yn Ysgol Y Fro, Bencampwriaeth Dan Do Cymru 200m dan 15 oed a gynhaliwyd yn y Ganolfan Genedlaethol Dan Do yn UWIC yn ddiweddar. Rhedodd Lloyd y ras mewn 24.9 eiliad, oedd yn amser gorau erioed iddo fe'n bersonol.

# Ysgol Pencae

## PROFIAD I'R PLANT

Cafodd disgyblion Ysgol Pencae brodiad arbennig pan ymwelodd y cyn-chwaraewr Ieuan Evans yr ysgol, gyda Chwpan y Chwe Glwad yn ei ddwylo. Derbyniodd yr Ysgol rodd o £250 gan Fanc NatWest, sydd yn rhan o'r grwp RBS sy'n noddi Pencampwriaeth y 6 Gwlad, tuag at raglen i ddatblygu rygbi yn yr ysgol. Yn y llun mae disgyblion Ysgol Pencae Caerdydd yn cael cip ar Gwpan Pencampwriaeth Y Chwe Gwlad gyda Ieuan Evans. Yn y llun hefyd mae Rheolwr Datblygu Busnes NatWest, Graham Handy a Hilary Foster Rheolwraig canghennau Gogledd Caerdydd.



# Glantaf

## Gŵyl Glantaf


*Mari Griffiths yn cael ei chadeirio*

Roedd neuadd fawr Gerddi Soffia yn llawn bwrlwm lliwgar disgyblion Glantaf yn edrych ymlaen at yr ŵyl flynyddol. Roedd y llysoedd wedi rhannu i bedwar cornel y neuadd gyda baneri yn chwifio a chrysau T yn y lliwiau priodol yn cael eu gwisgo gyda balchder. Gwyrdd ar gyfer llys Dyfrig, Coch i lys Illtud, Melyn i lys dewi a Glas ar gyfer llys Teilo. Roedd croestoriad o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn cystadlaethau traddodiadol fel yr unawd, deuawd, unawd offerynnol, ond roedd hefyd llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y cystadlaethau Sêr yn eu llygaid, cân Almaeneg, cân Ffrangeg, a sgets. Roedd y rhai oedd yn cymryd rhan a'r gynulleidfa wedi mwynhau, ac roedd safon y perfformio, fel arfer, yn uchel.

Uchafbwynt y dydd oedd y seremoni gadeirio, a Mr. Huw Thomas yn ei harwain hi am y tro olaf cyn iddo ymddeol. Mae'r gadair yn gystadleuaeth sydd yn rhoi siawns i ddisgyblion hŷn Glantaf ddangos eu sgiliau creadigol drwy ysgrifennu cerddi a storïau. Mrs Nona Gruffudd Evans oedd y beirniad ac yn ei habsenoldeb darllenodd Miss Meleri Wyn Jones y feirniadaeth. Roedd safon y gystadleuaeth yn uchel a chanmolwyd sawl un o'r cystadleuwyr. Yn fuddugol eleni yr oedd Mari Griffiths o flwyddyn 12 a dderbyniodd glod uchel am ei chyfres o gerddi a stori fer. Emyr James a Carys Osbourne o flwyddyn 13 oedd yn ail a thrydydd yn y gystadleuaeth.


*Y buddugwyr yn derbyn eu tlysau gan y prifathro Mr Huw Thomas*

Yn ogystal â'r dydd o eisteddfod cynhaliwyd diwrnod llawn o chwaraeon yng Ngerddi Soffia fel rhan o'r Wyl. Bu cystadlu brwd rhwng y llysoedd ar amrywiaeth eang o chwaraeon o denis bwrdd i bêl-droed, heb anghofio'r gystadleuaeth nofio. Ar ôl deuddydd o weithgareddau rhaid oedd mynd ati i gyfri'r holl bwyntiau ar gyfer y 'steddfod, y chwaraeon a'r gwaith cartref. Llys Dyfrig oedd y llys buddugol eleni, ond yn sicr fe elwodd aelodau pob llys wrth iddynt gymryd rhan a mwynhau yr amrywiol weithgareddau.


*Un o'r timoedd pêl-droed yn yr Wyl Chwaraeon*

Dyma un o'r cerddi yng nghasgliad buddugol Mari Griffiths.

**Godineb**

Cymru,
Beth yw i ti odineb?
Ai ymddiddan iaith estron ar dy weryd?
Gweryd lle mae'r famiaith yn fud.

Ai cosb yw dy wedd adfydus?
Ein cosbi am dy fradychu di.

Ai godineb yw troi cefn,
Ar iaith a gostiodd mor ddrud?
Ai dagr yn dy galon
Yw clywed parabl y Saeson,
Neu ond 'moving with the times'
Ydym ni?

Ai dyna pam bod dy wedd yn pydru?
Am i ni anwybyddu dy erfyniadau di.
Ai dyna pam bod dy dirwedd yn llipa?
Am mai ond defaid yn dilyn ydym ni.

Pwy heno sy'n ymladd drostot?
Yn ferthyr dros dy achos di.
Mae gen i gywilydd nad fi mohoni.
Glân yw fy nghleddyf i.

Ond Cymru mi garwn fyw,
Mewn gwlad lle mae'r dafod yn rhydd.
Lle nad oes pwysau 'street cred'
Yn cadw fy iaith yn gudd.

Pam nad magu balchder?
Yn fy iaith, a'th draddodiadau di-ri.
Pam nad galw ar feirch Gwenallt
A chydio yng nghleddyf G. Lloyd Owen,
Ac i'r gâd, i'r gâd â ni.

## Ocsiwn Addewidion Glantaf Ebrill 4ydd: 7.30

Bydd Hywel Gwynfryn yn llywyddu'r noson a phris tocyn mynediad yw £2.50. Gostyngwyd y pris gwreiddiol gan na fydd cyfle, wedi'r cyfan, i brisio hen bethau.

Mae nifer o addewidion cyffrous wedi dod i law eisioes e.e. darlun gan Iwan Bala, gwyliau mewn bwthyn yn Sir Benfro, englyn gomisiwn gan Mererid Hopwood yn ogystal â phas tacsi am y noson, cynigion i warchod, smwddio dillad, rhoi gwersi amrywiol, gosod blodau, potel o wisgi - heb anghofio ambell i beth 'twp' am nes ymlaen pan fydd pawb mewn hwyliau da!

Am fanylion pellach neu docynnau ymlaenllaw, cysyllwch a Alison Harris (Ysgrifennyddes Glantaf - 2033 3090) neu Eluned Owen Rook (Ysgrifennyddes y Gymdeithas Rieni - 2062 0747). Cofiwch ddod yn llu (gyda'ch pwrs) am hwyl a sbri!

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Faint ydych chi'n gwybod am yr ardal lle rydych chi'n byw. Eleni rwy wedi cael y fraint o wneud cwrs hanes lleol, ac mae'n syndod gymaint sydd yno i'w ddysgu, heb wneud llawer iawn o ymdrech. Wrth gwrs, roeddwn i wedi dechrau gyda bro fy mebyd, sef pentre Birchgrove yn Abertawe, hen bentre glowyr. Ond mae hyn wedi peri imi feddwl am y Birchgrove arall, yma yng Nghaerdydd. Tybed beth yw ei hanes e? Un peth sy'n gallu fod yn gymorth yw hen luniau, ac mae llwyth o lyfrau wedi cael eu cyhoeddu yn ddiweddar yn dangos gorffennol lleoedd dros Gymru. Rwy wedi gweld hen luniau o Lanisien ac yn gwybod, er enghraifft, bod nhw'n arfer gwerthu petrol lle mae'r Coop y dyddiau 'ma. Dim ond yn weddol ddiweddar, wrth gwrs, yn nauddegau'r ganrif ddiwethaf, daeth lleoedd fel Llanisien a Rhiwbina yn rhan o Gaerdydd. Yng nghyfrifiad 1851, er enghraifft, fe restrwyd nhw fel plwyfi yng Nghaerffili. A beth sydd mewn enw? Mae Llanisien wedi'i enwi ar ôl eglwys Sant Isan, sydd yng nghanol y pentref, ond pwy oedd Sant Isan? Yn ôl rhai, dyn o enw Dionysius oedd e, a ddaeth yn Sant Isan i'r Cymry, ond yn Sant Denis i'r Normaniaid - a dyna pam gwelir y ddau enw yng Nghaerdydd heddiw. A Rhiwbina - peidied neb geisio fy mherswadio taw Rhiwbeina dylai e fod! Mae'n amlwg bod yr enw yn dod o ddau air Cymraeg, sef "rhiw", bryn neu allt, a "pinau" y coed a oedd, mae'n debyg, yn tyfu ar yr allt, ac felly ynganiad Saesneg yw "Rhiwbeina". Byddai Kate Roberts, a oedd yn byw yno am gyfnod, yn troi yn ei bedd!

Felly, gaf i eich annog i fynd i'r llyfrgell a dysgu mwy am hanes diddorol ein dinas. Byddaf i, yn bendant. Ac os oes gan rywun wybodaeth am yr hen Gaerdydd yr hoffen nhw ei rhanni gyda ni, rwy'n siŵr byddai Golygydd y Dinesydd yn falch o glywed gennych chi.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| ardal - *area* | cyfrifiad - *census* |
| braint - *privilege* | restrwyd - *listed* |
| ymdrech - *effort* | plwyf(i) - *parish(es)* |
| bro fy mebyd - *my home area* | peidied neb - *let no one* |
| peri - *to cause* | ynganiad - *pronunciation* |
| llwyth - *load* | cyfnod - *period* |
| yn nauddegau - *in the twenties* | falch o glywed - *pleased to hear* |

### APEL GAN CYD

Mae CYD yn fudiad cenedlaethol sy'n bodoli er mwyn helpu dysgwyr y Gymraeg dod at rhugledd. I wneud ein gwaith, yr ydym yn dibynnu'n fawr ar bobl caredig iawn sy'n barod i aberthu tipyn o'u hamser sbar er mwyn cynnal sgwrs gyda'r rhai sy'n dysgu.

Ar hyn o bryd mae angen arnom pobl sydd â thair awr i sbario mewn blwyddyn. Dyna i gyd! Does dim rhaid bod â phrofiad dysgu, neu hyd yn oed siarad yn berffaith. Pwysicaf byth yw'r awydd i helpu dysgwyr/siaradwyr llai hyderus ymarfer eu Cymraeg.

Hoffwn ofyn i'ch ddarllenwyr a os ydynt yn barod i her, am gyfle i helpu'r iaith ffynnu yn ardal y De Ddwyrain? Er bod ydym yn gofyn am gyfraniad o dair awr mewn blwyddyn, fydden ni ddim yn wrthod y rhai sydd yn barod i wneud mwy o oriau!

Os yw'r ateb yn y gadarnhaol, y peth nesaf i wneud yw i gysylltu â fi ar Gaerdydd 029 2031 2293, neu yrru e-bost ataf ar padi@ntlworld.com am fwy o wybodaeth.
Diolch yn fawr ymlaen llaw,
**Padi Phillips**, Swyddog Cyswllt CYD De Ddwyrain Cymru

## *Y Border Bach*
### gan Hwn a Hon



Byddaf yn edrych ymlaen ym mis Mawrth ac Ebrill i weld y briallu yn blodeuo yn y cloddiau ac ar ymyl yr heolydd. Os ydych yn teithio'r M4 i'r gorllewin fe welwch drwch ohonynt ar y banc yn ymyl y ffordd yn agos i Benybont. Maent yn amlwg yn hoffi eu lle yno ac wedi hadu ac ymledu. Mae'r friallen wedi bod o gwmpas ers canrifoedd ac yn cael ei chyfrif fel un o 'flodau syml pobol tlawd', chwedl Crwys. Roedd gan bob border bach 'dwy neu dair briallen ffel, a daffodil, bid siŵr' yn y ganrif ddiwethaf. Yr enw cywir amdani yw *Primula vulgaris*. Os nad oes rhai gennych yn yr ardd, peidiwch â'u codi o'r gwyllt, maent i'w cael yn ddigon parod o'r canolfannau garddio y dyddiau hyn.

Fe welwch yno hefyd y mathau bob lliw o primula. Mae yna sawl gwahanol fath, ac maent i'w cael yn llythrennol ym mhob lliw dan haul. Y ddau mwyaf cyffredin yw'r amrywiadau ar *P. vulgaris*, sef rhai ag un blodyn i bob coesyn a'r rhai a elwir yn polyanthus, sydd â choes drwchus a nifer o flodau ar bob un. Yn bersonol, gwell gennyf weld y rhain mewn potiau wrth y drws nag yn y border gan fod y lliwiau'n gallu bod yn rhy lachar ac yn sioc i'r llygad ar ôl sobrwydd y gaeaf!

Gellir cael briallu â blodau dwbl hefyd. Roedd y rhain yn boblogaidd iawn yn amser Shakespeare. Heddiw mae sawl math newydd ar gael sy'n ddel iawn, ond nid ydynt yn gallu hadu ac nid ydynt yn gwrthsefyll yr oerfel cystal.

Mae'r briallu yn hoffi cysgod o haul cryf yr haf, felly tyfwch nhw o dan lwyni neu goed coll-dail a fydd wrth ddeilio'n ddiweddarach yn rhoi cysgod iddynt. Bob tair neu bedair blynedd dylid eu rhannu. Yr amser gorau i wneud hyn yw ar ôl iddynt orffen blodeuo, tua mis Mehefin. Dyfriwch nhw'n dda cyn eu codi, eu rhannu â'ch dwylo ac ail-blannu'r rhaniadau tua 6 modfedd ar wahân, cyn eu dyfrio'n dda eto. Yna, gwnewch sicrhau y bydd gennych friallu i'ch swyno am flynyddoedd i ddod.

### GORSAF Y DYSGWYR

Lansiwyd gorsaf radio rhyngrwyd Radio Acen, yr orsaf radio 24 awr gyntaf ar gyfer dysgwyr unrhyw iaith. Mae'r wefan yn tywys y dysgwyr i lwytho meddalwedd sy'n sicrhau'r safonau sain uchaf. Gall y dysgwyr wedyn ddewis un o ddau wasanaeth cychwynnol - y naill yn ffrwd o gerddoriaeth Gymraeg, sy'n cynnwys geiriau'r caneuon yn Gymraeg ynghyd â chyfieithiad Saesneg, a'r llall yn barth dysgu aml-gyfrwng gyda chwrs awdio i ddysgwyr. Fe ychwanegir cwrs fideo i'r parth hwn yn fuan. Gellir ei chyrraedd ar www.radioacen.fm.

### DYSGWYR Y FLWYDDYN

Eleni bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal ym Maldwyn o Awst 2 i 9. Rhan bwysig a blaenllaw y rhaglen yw'r dysgwyr, ac un o brif gystadlaethau'r wythnos fydd yr un i ennill Tlws Dysgwr y Flwyddyn. Cynhelir rowndiau cynderfynol yn ystod y gwanwyn, ar ffurf sgwrs neu weithgaredd gyda beirniad, ac fe gynhelir y rownd derfynol ar ddydd Mercher Awst 6ed yn yr Eisteddfod. Yn ogystal â'r wefr o ennill bydd yr enillydd yn derbyn tlws a £300, a bydd pob un arall sy'n ymddangos yn y rownd derfynol yn derbyn tlws a £100. Felly beth am gystadlu neu enwebu rhywun arall? Am fanylion a ffurflen gystadlu cysylltwch â Geraint Evans, Swyddog y Dysgwyr, Swyddfa'r Eisteddfod, Hen Siambrau'r Goets Fawr, 1 Stryd yr Eglwys, Y Trallwng, SY21 7DG, ffôn (01938) 551970. Rhaid cael ceisiadau i mewn erbyn 31 Mawrth.

## Calendr y Dinesydd

**(Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm)**

**Gwener, 14 Mawrth**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Swper Gwyl Ddewi, yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Gwr gwadd: Parch. Glyn Tudwal Jones.

**Gwener, 14 Mawrth**
Cymdeithas Eglwys y Crwys: Cyngerdd gan Gôrdydd (Arweinydd: Sioned James), yn Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.30 p.m. Casgliad at elusen.

**Sadwrn, 15 Mawrth**
Sadwrn Siarad yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Cyfle i ddysgwyr Cymraeg ymarfer mewn lleoliad cwbl Gymraeg. I archebu lle, neu i gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar 029-2087-4710. Mynediad am ddim.

**Llun, 17 Mawrth**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Cyflwyniad Disgyblion Ysgol ar eu Prosiect Peirianeg, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Llun, 17 Mawrth**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson gyda'r Dysgwyr, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 6.30 p.m.

**Mawrth, 18 Mawrth**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Pigion o Sain Ffagan gyda Meinwen Ruddock, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mawrth, 18 Mawrth**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Noson Eifion a Catherine, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mercher, 19 Mawrth**
Cymdeithas Ty'r Cymry: Anerchiad gan Mrs Julia Burns, yn Nhy'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Iau, 20 Mawrth**
Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch: Y Cinio Blynyddol - dathlu dengmlwydd, yng Nghastell Caerdydd am 7.30 p.m. Manylion pellach: Ceri Preece (Ysgrifennydd), Hugh James Cyfreithwyr (Ffôn: 029-2039-1163; e-bost: ceri.preece@hughjames.com

**Gwener, 21 Mawrth**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Llyfrau Erchwyn Gwely.' Sgwrs gan y Parch. W. Eifion Powell yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Mawrth, 25 Mawrth**
Theatr Gwynedd yn cyflwyno Dan y Wenallt (Dylan Thomas/T. James Jones) yn Theatr Sherman am 7.30 p.m. Swyddfa Docynnau: 029-2064-6900.

**Gwener, 28 Mawrth**
Cylch Cadwgan: Grahame Davies yn darllen a thrafod ei waith ei hun yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf am 8.00 p.m.

**Sadwrn, 29 Mawrth**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg: Bore Coffi i Ddysgwyr (gan gynnwys sgwrs gan Gwen Emyr ar y testun 'Taith i Batagonia'), yn adeilad yr Eglwys, Rhymney St., Cathays, rhwng 10.30 a 12.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 29 Mawrth**
Côr Philharmonic Caerdydd: Perfformiad o 'Stabat Mater' (Dvorák) yn Neuadd Gyngerdd Prifysgol Caerdydd, Heol Corbett, am 7.30 p.m. Tocynnau: £5.

**Mercher, 2 Ebrill**
Merched y Wawr (Bro Radyr): Noson yng nghwmni'r Trwbadwr Alwyn Samuel. Manylion pellach: 029-2056-4406 neu 029-2084-2929.

**Gwener, 4 Ebrill**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: 'Cau Pen y Mwdwl', yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Sul, 6 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cymanfa Ganu dan arweiniad Emyr Roberts, yng nghwmni Côr Plant Ysgol y Wern, yn Beulah, Rhiwbina, am 8.00 p.m.

**Llun, 14 Ebrill**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Allan i De.' Manylion pellach: 029-2075-6525.

**Mawrth, 15 Ebrill**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson dan ofal Cymrodorion Caerdydd, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 16 Ebrill**
Cymdeithas Ty'r Cymry: Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas, yn Nhy'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Gwener, 18 Ebrill**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Gwasanaeth Gwener y Groglith yn Eglwys Dewi Sant am 2.00 p.m. Pregethir gan y Parch. Gethin Abraham Williams.

*Anfonwch fanylion at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*


*Ydy* ***Alcohol*** *yn costio mwy nag arian i ti?*


Paid digalonni!
Mae 'na ateb!

AA
**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 7697555**
a gofyn am gael sgwrs
**yn Gymraeg** gyda rhywun sy'n deall.



## CYNNIG ARBENNIG I DDARLLENWYR Y DINESYDD



### Llwy Garu Gymreig am £19.50 yn unig

**Yn cynnwys llosgi enwau a phostio yn rhad ac am ddim**

**Dyma'r anrheg delfrydol ar gyfer priodasau, penblwyddi priodas, dyweddio, penblwyddi ac achlysuron arbennig.**

Am ganrifoedd bu llanciau Cymru'n cerfio llwyau pren fel arwydd o serch neu gyfeillgarwch, ac mae'r arfer yma'n lledu o gwmpas y byd.

Cynnigwn ni wasanaeth yn rhad ac am ddim o losgi enwau, dyddiadau neu neges fer ar lwy garu wedi'i cherfio yng nghymoedd de Cymru.

Nodwch yr enwau / neges y dymunwch ei gael ar y calonnau (ee 2 enw ar un galon a dyddiad/neges ar y llall neu 2 enw ar wahân ar y 2 galon (mwyafswm o 25 llythyren)

**Er mwyn archebu llenwch y Cwpon i'r dde a'i ddanfon at Angharad Clwyd, Cadwyn Cyf, Dolwerdd, Llanfihangel ar Arth. Pencader Sir Gâr. SA39 9JU Ffôn 01559 384378**

A wnewch chi ddanfon ____ Llwy Garu @ £19.50 ____

Neges:
[ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ]
[ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ][ ]

Mr/Mrs/Miss/Ms: Enw Llawn: ____
Cyfeiriad: ____
____
Côd Post: ____
Rhif ffôn yn ystod y dydd: ____

Rydwyf yn amgau siec wedi'i wneud yn daladwy i Cadwyn Cyf am £____

Neu a wnewch chi gymeryd £____ oddi ar fy nghherdyn Switch/Mastercard/Visa

Rhif Cerdyn ____
Rhif Issue(Switch yn unig) ____ cychwyn ____ expires ____

Arwyddwyd ____
Gwnewch eich siec am £19.50 yn daladwy i 'Cadwyn Cyf' neu danfonwch fanylion eich cerdyn credyd.
Dylsech dderbyn y llwy o fewn 7 diwrnod.

# DEINTYDD

*Gwasanaeth Iechyd (NHS) / Preifat*
*yn dal i dderbyn cleifion newydd*

**Osian Davies, BDS (Cymru)**
28 Heol y Santes Fair, Caerdydd
*(drws nesaf i McDonalds)*

029 2037 1393

# GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones
Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209
82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad
Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd
PRISIAU RHESYMOL
Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **029 20868208**
neu **07967 558664**

BT

# Mae mwy nag un TOM JONES

*Ydych chi'n ffonio'r un iawn?*

Galwch
**118404**
gwasanaeth ymholiadau rhifau ffôn

*BT bob tro*
*Defnyddiwch eich Cymraeg*

www.BT.com *Am gymorth gyda biliau • prynu • trwsio*
*Galwch 0800 800 288*

# PINNACLE

# LANDLORDIAID



"Rydym yn cynnig gwasanaeth rheoli a rhentu yn unig ar gyfer fflatiau proffesiynol a thai myfyrwyr"
**Rol Gwyn,**
**Trefnydd Rhentu**

**10% o ostyngiad gyda'r hysbyseb hwn**

**Pinnacle Property Ltd.**
**3-5 Fanny Street**
**Cathays**
**Caerdydd**
**CF24 4EG**
**Tel: 029 2064 0200**
**info@pinnacle-group.com**
**www.pinnacle-group.com**

CORGI
Registered Gas Engineer

INVESTOR IN PEOPLE

Rydym yn aelodau cofrestredig o Alma (Assoc. of Letting and Management Agents) a gydnabyddir gan Gyngor Dinas Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd fel asiantau dibynadwy. Mae hyn yn golygu ein bod yn dal yswiriant indemniad ac yn dal cyfrif clientau.

gwledd o
ganu gan

# Cytgan

buddugwyr yn y Genedlaethol
a'r
Ŵyl Gerdd Dant

Eglwys Dewi Sant, Caerdydd
7.30pm
Nos Sadwrn, 22 Mawrth, 2003

Eich cyfle cyntaf i'w clywed yn y brifddinas!

Tocynnau: £5 (gostyngiadau - £4)
gan aelodau Cytgan